



Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	21/10/2021
Teitl:	Datganiad Polisi Llywodraethu
Pwrpas:	Derbyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor i fabwysiadu'r Datganiad Polisi Llywodraethu newydd
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi Datganiad Llywodraethu a Chydymffurfiaeth o dan Reoliad 55 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd) ac adolygu'r datganiad hwnnw yn barhaus. Mae'r datganiad hwn yn nodi Strwythur Llywodraethu'r Gronfa, y cynllun dirprwyo, a'r cylch gorchwyl ar gyfer ei Chyrff Llywodraethol, y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol.

Mae'r ddogfen sydd mewn grym ar hyn o bryd wedi bod mewn bodolaeth ers 2008. Wrth baratoi ar gyfer Prosiect Llywodraethu Da Bwrdd Cynghori'r Cynllun a ddaw i rym ym mis Ebrill 2022, rydym wedi bod yn adolygu ac yn diweddarau ei datganiadau. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys darparu fwy o wybodaeth am gyfrifoldebau staff y gronfa bensiwn a hefyd cyflwyno rhan newydd i'r polisi mewn perthynas â rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd Pensiwn.

2. Beth ddylid ei gynnwys?

Rhaid i'r Datganiad Polisi Llywodraethu nodi:

- (a) a yw'r awdurdod yn dirprwyo ei swyddogaethau, neu ran o'i swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog yn yr awdurdod;
- (b) os yw'r awdurdod yn gwneud hynny—
 - (i) telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithredol y ddirprwyaeth,
 - (ii) amllder unrhyw gyfarfodydd pwyllgor neu is-bwyllgor,
 - (iii) a yw pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr neu aelodau'r Cynllun, ac os felly, a oes gan y cynrychiolwyr hynny hawliau pleidleisio;
- (c) i ba raddau y mae dirprwyaeth, neu absenoldeb dirprwyaeth, yn cydymffurfio â chanllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, i'r graddau nad yw'n cydymffurfio felly, y rhesymau dros beidio â chydymffurfio; a
- (d) manylion y telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithredol sy'n ymwneud â'r bwrdd pensiwn lleol a sefydlwyd o dan reoliad 53 (4) (Rheolwyr y cynllun).

Rhaid i awdurdod gweinyddu gadw datganiad a baratowyd dan adolygiad, a gwneud unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol, yn dilyn newid sylweddol i unrhyw un o'r materion a grybwyllir uchod.

Cyn paratoi neu adolygu datganiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i awdurdod gweinyddu ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn ei farn ef.

3. Datganiad Cronfa Bensiwn Gwynedd

Er mwyn cwrdd â'r gofyniad rheoleiddio, mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu (**Atodiad A**) a'r Datganiad Cydymffurfiad â'r dref Lywodraethol (**Atodiad B**) wedi'u diweddarau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Byddem yn gwerthfawrogi cymeradwyaeth y Pwyllgor i fabwysiadu'r polisiau yma.